

# BEUNO (bu farw 642?), nawdd-sant a goffeir yn bur gyffredinol yng Ngogledd Cymru

**Enw:** Beuno

**Dyddiad marw:** 642?

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** nawdd-sant a goffeir yn bur gyffredinol yng Ngogledd Cymru

**Maes gweithgaredd:** Crefydd

**Awdur:** John Edward Lloyd

O dan ei nawdd ef y mae Aberffraw, Trefdraeth, Clynnog, Penmorfa, Carngiwch, Pistyll, a Botwnnog yng Ngwynedd, a Llanycil, Gwyddelwern, Aberriw, a Betws Cydwain ym Mhowys; Llanfeuno yn Ewias Lacy ydyw'r unig gynrychiolydd yn y De. Clynnog (Celynnog yn wreiddiol) oedd y pwysicaf o lawer o'r sefydliadau hyn. Yn llawysgrif hynaf ' Dull Gwynedd ' o gyfraith [Hywel Dda](#) ceir fod y corff clerigwyr a ddaliai Glynog o dan yr enw ' clas Beuno ' i warantu, gyda chlas Bangor, freiniau cyfreithiol cantref Arfon. Yn ôl traddodiad rhoddwyd y tir gan Wyddeint, cefnder [Cadwallon](#) brenin Gwynedd - tua 630, felly. Ceir yng nghofnodion hanes yr Eglwys restr faith o roddwyr eraill mewn amseroedd diweddarach; fe'i gwnaethant yn un o'r sefydliadau mwyaf cyfoethog yng ngogledd-orllewin Cymru. Coffeid enwogrwydd y nawdd-sant mewn amryw ddulliau yng Nghlynnog. Dengys Bedd Beuno 'r fan y gorffwys ynddo; Ffynnon Beuno oedd ei ffynnon iacháu; a cheir Cored Beuno hefyd a Chyff Beuno, sef ei gist gref o dderw cadarn, Nod Beuno (sef y toriad ar glustiau gwartheg a gyflwynid iddo), a Llyfr Beuno yn cynnwys cofnod ei hawliau.

Er cymaint y cyfoeth hwn o bethau sy'n ei goffáu nid oes gan hanes fawr ddim i'w adrodd am y sant ei hunan. Yr unig 'fuchedd' a gadwyd ydyw braslun byr yn Gymraeg, tua 1350, a geir yn ' Llyfr Ancr Llanddewi Brefi.' Yn ôl hwn yr oedd yn disgyn o deulu brenhinol Morgannwg, wedi ei eni ar lan Hafren ym Mhowys, a'i addysgu yng Nghaerwent; fe ymsefydlodd yn Aberriw (nes iddo orfod ymadael pan ddaeth y Saeson), wedi hynny yng Ngwyddelwern, yn Nhreffynnon (lle y mae iddo ran yn hanes y [santes Wenffrewi](#)), ac, yn olaf oll, yng Nghlynnog lle y bu farw ar ddydd Sul y Pasg Bychan (yn ôl dull y Cymry o gyfrif). Gan y coffeid ei yl ym mhobman o'r bron ar 21 Ebrill, efallai y gellir casglu mai 642 oedd blwyddyn ei farw.

## Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

## Ffynonellau

*The Lives of the British Saints*, i, 208-21

Eben Fardd, *Cyff Beuno* (Tremadog 1863)

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Beuno](#)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q612390](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

